SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

The Slate Landscape of Northwest Wales Inscribed on the World Heritage List in 2021

**Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

**02.02.2024**

**Ymddiheuriadau:**

Ashley Batten (Cadw), Tom Simone (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd), Gary Robinson (Prifysgol Bangor), Johnathan Cawley (Parc Cenedlaethol Eryri), Sian Rees (ICOMOS).

**Yn bresennol:**

Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Cyng. Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Naomi Jones (Parc Cenedlaethol), Elen Roberts, (Amgueddfa Lechi), Phil Bushby (Amgueddfa Cymru) Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Dafydd Gwyn (Govannon), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Llywela Owain (Cyngor Gwynedd), Nia Lewis (Cyngor Gwynedd), Roland Wyn Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Dan Amor (Cyngor Gwynedd).

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**<br><br>• Nodwyd yr ymddiheuriadau, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**<br><br>• Dim cywiriadau a phawb wedi cwblhau eu camau gweithredu | |
| **3. Strwythur Gweithredu STyB**<br><br>• DW wedi camu i lawr o'i rôl fel Cadeirydd Grŵp Llywio Allanol yn yr Amgueddfa Lechi<br>• Rydym angen adolygu strwythur rheoli STyB bob blwyddyn.<br>• Cyfarfod nesaf - gofyn i bartneriaid i ystyried newidiadau ynddo: ei ychwanegu fel eitem agenda<br>• Rhannu sgrin - strwythur llywodraethol cyfredol STyB<br>• Mae'r strwythur cyfredol i weld yn gweithio ar hyn o bryd<br>• Rydym angen trefnu cyfarfodydd ar gyfer tirfeddianwyr a grwpiau lleol yn y misoedd nesaf | DA: i'w ychwanegu at yr agenda |
| **4. Adnabod Blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth a Phartneriaid ar gyfer 2024**<br>Trafodaeth o amgylch y bwrdd<br><br>• Trafodaeth ynglŷn â ddylai bod mwy o gynrychiolaeth gan y gymuned ar lefel bwrdd (hefyd yr is-bwyllgor Buddion) | |

| | |
|---|---|
| • Mae hyn yn opsiwn ond byddai angen i ni sicrhau na fyddai'r cyfarfodydd yn orlawn<br>• Trafodaeth lawn ar hyn yn y cyfarfod nesaf<br>• Tirfeddianwyr a busnesau yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y grŵp Buddion, gallai cyfarfod y grŵp Buddion yn y dyfodol gael ei seilio ar thema o gwmpas cynrychiolwyr tirfeddianwyr<br>• Mae cynrychiolwyr o Gwmystradllyn wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan ond byddwn yn parhau i chwilio am fwy o ymgysylltiad gyda'r rhan yma o gydran STyB<br>• Mae angen i'r Iaith Gymraeg chwarae rôl amlwg yn yr hyn yr ydym yn ei wneud, e.e., y dreftadaeth rydym yn ei gyflwyno i ymwelwyr<br>• Mae'r is-grwpiau yn gweithio'n dda - un neu ddau o fylchau yn y ddarpariaeth, ond rydym yn mynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft, mae mwy o ffocws ar addysg ac addysgu erbyn hyn<br>• Gellir cyfeirio at y bylchau hyn yn ystod y cyfarfod nesaf<br>• Yn siomedig, ni fynychodd mwy o gynghorwyr lleol y cyfarfod blynyddol, er eu bod wedi cael eu gwahodd<br>• Ydy Deiniolen yn teimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol?<br>• Rhagor o waith i ni wneud ynglŷn ag ymgysylltu cymunedol, ond hefyd ar draws adrannau Cyngor Gwynedd - mae'n dda bod yr adran iaith yn bresennol heddiw<br>• Mae PB wedi cymryd yr awenau gan KD yn Amgueddfa Cymru, ac mi fydd yn gweithio ar ail-ddatblygiad yr Amgueddfa Lechi<br>• Terfynau amser LUF yn parhau i fod yn heriol - mae Cyngor Gwynedd yn trafod y posibilrwydd o gyflwyno Cais Addasiad Prosiect i Lywodraeth y DU er mwyn ymestyn y cyfnod cyflawni<br>• PB i friffio'r Is-Grŵp Buddion ar waith asesiad yr effaith economaidd<br>• Yr Amgueddfa Lechi yn cyfeirio at ymgysylltu cymunedol - gan sicrhau bod trigolion Llanberis yn teimlo'n rhan o'r broses ail-ddatblygu<br>• Trafodaeth rhwng yr amgueddfa a'r STyB - byddai prosiect CTyLG yn fuddiol o ran cydweithio posib<br>• Er hyn, y bwriad o hyd ydy gwneud yr amgueddfa ar ôl iddo gael ei ailddatblygu, fel hwb canolog<br>• Dorothea Pumped Hydro: trafodaeth barhaus ynghylch y prosiect hydro a'r maes parcio<br>• Blaenoriaethau Llechi Cymru - sicrhau cyllid, cynorthwyo prosiectau LUF a SPF fel y cynigir tra'n cadw at derfynau amser, parhau fel corff atebol STyB ac yn gyfrifol am redeg y safle o ddydd-i-ddydd ar lefel weithredol. | PB: grŵp Buddion byr<br><br>DA: e-bost pontio |
| **5. Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Prosiect LleCHI LleNi (LT)**<br><br>• Gofynnodd DW i bob aelod gymeradwyo cyflwyniad y cais CTyLG am gyllid Rownd 2 am £1.7m. Cefnogodd yr holl aelodau gyflwyniad y prosiect a chadarnhaodd eu cefnogaeth i'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.<br>• Cylchredwyd y cynllun gweithgareddau (60 o gynlluniau) - Aelodau o'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn diwedd yr wythnos<br><br>**Cyflwyniad (LT)**<br><br>• Trosolwg o'r cais NHLF<br>• Adeiladu ar brosiect LleChI a gwaith wedi ei gwblhau yn ystod cyfnod peilot y prosiect newydd<br>• Cais am ail rownd ariannu yn cael ei gyflwyno a phenderfyniad erbyn Mehefin 24<br><br>**Mae'r amcanion yn cynnwys:** | |

| | |
|---|---|
| • Manteisio ar Statws Treftadaeth y Byd er budd y rhai sy'n byw yn ac o gwmpas y STyB<br>• Meithrin cymunedau i gael gwell ymwybyddiaeth o'u treftadaeth<br>• Gweithio mewn partneriaeth o fewn Llechi Cymru ond hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r cymunedau<br>• Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar bobl - yn ychwanegu at ffynonellau ariannu eraill (LUF, SPF) sy'n canolbwyntio ar leoedd<br>• Ystod eang o adnoddau, digwyddiadau a gweithgareddau, a llawer yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant a dysgu<br>• Canolbwyntio ar falchder cymunedol, ond hefyd yn ymdrin â phryderon - e.e., negeseuon iechyd a diogelwch, yr Iaith Gymraeg - adnoddau i ddysgwyr, a bydd unrhyw ymchwil yn ddwyieithog<br>• Sgiliau traddodiadol, cadwraeth<br>• Bydd y prosiect yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus parhaus<br>• Arfarniad broffesiynol<br>• Cyfnod peilot llwyddiannus<br>• Mae etifeddiaeth y prosiect yn bwysig<br>• Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â nifer o'r pethau a ystyrir yn bwysig gan yr is-grwpiau Buddion a Chadwraeth<br>• Ymgynghori ag APCE am enghreifftiau o arferion da yn ystod Partneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>• Capasiti staff i'w hymestyn i gyrraedd amcanion y prosiect.<br>• Posib i adran Iaith Cyngor Gwynedd gyfarfod ar wahân i drafod effaith y gweithgareddau ar yr iaith<br>• Diolch i'r rhai sydd wedi helpu hyd yn hyn | DA: e-bost pontio |
| • **Diweddariad STyB**<br><br>**Is-grŵp Cadwraeth**<br><br>• Adroddiad crynodeb wedi'i gyflwyno i'r bwrdd<br>• Llyfrynnau *Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth* yn cael eu cylchredeg rhwng cynllunwyr<br>• Bydd canllaw *Gofalu am Dirwedd Llechi* wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol<br>• Cyfarfod diweddaraf Cadwraeth: cyflwyniad ar brosiectau cadwraeth LUF<br>• Thema'r cyfarfod oedd yr Amgylchedd Adeiledig, roedd peth cynnydd ar y mater hwn (e.e., asesiadau a gwerthusiadau ardal gadwraeth)<br>• Oes angen i'r ddau is-grŵp ailasesu cyfathrebiadau?<br>• A ydym yn rhannu cyfleoedd am y STyB yn ehangach a hynny'n ddigonol?<br>• Lefel strategol cyfathrebiadau - pwysig i wneud argraff ar y Prif Weinidog newydd<br>• Posibilrwydd arfaethedig o drefnu ymweliad y Prif Weinidog newydd i STyB<br>• Mae cyfathrebiadau yn dod o dan themâu trawsbynciol ac mae ein strategaeth gyfathrebu newydd yn cael ei drafftio<br>• Mae gan APCE grant marchnata o hyd. Gorgyffwrdd yma gyda phrosiectau Loteri.<br><br>**Is-grŵp Buddion**<br><br>• Adroddiad crynodeb wedi'i gyflwyno i'r bwrdd<br>• Agwedd mwy gadarnhaol tuag at dwristiaeth gan gynnwys ymwelwyr o dramor yn ôl yr adborth o gyfarfod diweddar Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru<br>• Cytunwyd y dylai fod grŵp tasg a gorffen ar wahân ar gyfer Cynllun Rheoli Thema 5 (Dysgu). DA yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith sgopio<br>• Mae angen i'r Cynllun Rheoli fod ar yr agenda Buddion<br>• Digwyddiad busnes wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth 8. | |

- Doroethea Pumped Hydro: yn rhy gynnar i ymgysylltu yn yr ymarfer cyn-cynllunio, ond pan fyddwn yn gwneud, gallwn ddod ag elfennau o'r grwpiau Cadwraeth a Buddion ynghyd
- Zipworld: cafodd y grŵp eu briffio ar sesiwn gynghori anffurfiol ddiweddar a gynhaliwyd ynghylch datblygiadau arfaethedig yn Chwarel Llechwedd. Cafodd y fformat newydd dderbyniad da.
- Rhan o rôl y grŵp Buddion yw creu ynni rhyngwladol ar draws y STyB - gall datblygiadau fel hyn gyfrannu tuag at hynny

**Diweddariad Cydlynydd STyB**

- Cynllun Gweithredu STyB: cymeradwywyd cynllun 2022-23. Bydd ambell newid i sut yr ydym yn cofnodi gwybodaeth ar gyfer 2023-24 - y math o wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, ac ar gyfer beth ydym yn ei ddefnyddio.
- Cyfarfod blynyddol: (Tachwedd 23) diolch i'r rhai a gynorthwyodd ac a fynychodd, adborth gadarnhaol gan y mynychwyr
- Thema 5 (Dysgu): penderfynwyd ffurfio grŵp tasg a gorffen ar wahân, DA yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith sgopio: asesu'r ddarpariaeth dysgu bresennol
- Gweithdy Treftadaeth ddiwydiannol, Ebrill 10 ac 11 2024. Trefnwyd gan Dreftadaeth y Byd y DU a Phrifysgol Bangor. Llechi Cymru wedi helpu i drefnu rhaglen.
- Tocynnau a rhagor o wybodaeth yma

**6. Cyllid**

- Mae prosiectau SPF yn symud ymlaen
- Mae prosiectau LUF yn gwneud cynnydd ond yr amserlen yn heriol i rai partneriaid. Mae prosiectau LUF eraill yn y DU wedi cael estyniad amser drwy'r broses PAR ond nid yw hyn wedi'i warantu.
- Cronfa HBO: gall y ddwy raglen o'r gronfa cymuned (Pentra Pwyllgor Deiniolen, Cyngor Cymuned Llanberis) gychwyn unwaith y bydd gan Ddeiniolen eu CBC mewn lle

**7. Themâu llorweddol**

- Bydd y Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei rhannu ar ôl ei chwblhau
- Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr o adran iaith Cyngor Gwynedd am fynychu
- Economi twristiaeth gynaliadwy: gallwn ymdrin â hyn mewn mwy o fanylder y tro nesaf, pan fydd y strwythur llywodraethol wedi ei benderfynu
- Awgrym y dylai themâu llorweddol fod yn agosach at frig yr agenda

**8. Unrhyw fater arall**

- Mae Talyllyn wedi cynnig i ni fynd am ddiwrnod allan, mwy o fanylion i ddilyn
- Castell Penrhyn: trenau wedi cael eu hailddosbarthu. Logisteg heriol ond bellach yn eu lle.
- Bydd Amgueddfa Lechi a'r Archif yn trefnu digwyddiad ar gyfer penblwydd Undeb y Chwarelwyr (27 Ebrill 2024).

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Dyddiad Dros dro: 26 Ebrill 2024 (i'w gadarnhau)